

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Y Cynghorydd Tom Beedle

Ward: Dwyrain Maesteg

Plaid: Annibynwyr Llynfi

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2020** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Dwyrain Maesteg ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyfiawnhau fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu sawl Gweithgaredd Datblygu Aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth o faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a fy ward.

Mae rhagor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau i'w gweld drwy ddilyn y ddolen hon.

Gweithgaredd Etholaeth Rwyf wedi ymateb yn gadarnhaol i bob ymholiad ac wedi ymchwilio i bryderon fy etholwyr (gwaith achos) a chydymffurfio â GDPR, rwyf wedi cynrychioli tenantiaid landlordiaid preifat a chymdeithasol gyda materion yn ymwneud â'u llety ac wedi cael llawer o ganlyniadau llwyddiannus

Rwyf wedi cyfryngu rhwng etholwyr mewn anghydfodau rhwng cymdogion ynghylch gwrychoedd uchel a choed sy'n hongian, ac wedi ceisio cael rhywfaint o gytundeb rhwng y partiion hynny.

Rwyf wedi cyfleu penderfyniadau'r cyngor sy'n effeithio arnynt dros y ffôn, e-bost, cyfryngau cymdeithasol a chyswllt wyneb yn wyneb

Rwyf wedi gwneud llawer o atgyfeiriadau ynghylch tipio anghyfreithlon, gan gynnwys mynd â sbwriel wedi'i dipio'n anghyfreithlon i'r ganolfan ailgylchu fy hun yn bersonol, cysylltu â pherchnogion tir, a gweithio gydag ymgyrchwyr lleol sydd wedi sefydlu grŵp Facebook i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Rwy'n parhau i ymateb i drigolion a'u cefnogi gyda materion yn ymwneud â diffyg casglu ailgylchu a materion parcio.

Sefydlais a rhedais Siop Cyfnewid Gwisg Ysgol ym Maesteg i wasanaethu teuluoedd mewn angen yn ein cymuned, ond fe'u gorfodwyd i gau oherwydd y Cyfnod Clo.

Rwyf wedi llwyddo i gefnogi'r clwb rygbi lleol gyda materion diogelwch ar y maes chwaraeon lleol drwy'r Gronfa Gweithredu Cymunedol.

Rwyf wedi gweithredu fel cynghorydd i grwpiau cymunedol ar CATS.

Rwy'n cysylltu â'r heddlu lleol ar faterion sy'n ymwneud ag ASB.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig, ym mis Mawrth roeddwn yn gwirfoddoli gyda sawl asiantaeth yn cefnogi grwpiau bregus, gan gynnwys mynd i brynu bwyd a siopa i'r Digartref Sengl Ifanc ym Maesteg, wedi gweithio mewn partneriaeth â grŵp chwaraeon lleol ar ddiogelwch chwaraewyr, ac yn gweithio gyda sied dynion Caerau. Rwyf hefyd wedi plannu bylbiau Cennin Pedr yn ein mannau gwyrdd cymunedol.

Gweithgareddau/Materion Eraill Fi yw Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Cwmfelin, ac rwyf wedi bod yn Llywodraethwr yn ysgol Gyfun Maesteg ers 29 mlynedd, rwyf hefyd yn cadeirio Cymdeithas Llywodraethwyr Sir Pen-y-bont ar Ogwr, gan roi llawer o amser i addysg ein plant.

Rwy'n treulio llawer o amser ym mis Rhagfyr yn chwarae Siôn Corn yn ein Hysgolion lleol, ac ar gyfer Elusennau Plant ym Maesteg a lleoedd eraill.

Rwyf hefyd yn rhoi Disgos Elusennol ar waith ar gyfer Teuluoedd Arbennig Maesteg, ac achosion elusennol eraill yn fy nghymuned.

Fi yw ysgrifennydd y Gymdeithas Rhandiroedd leol ac rwyf wedi llwyddo i'w chofrestru fel elusen.

Sefydlais a rhedais The Uniform Swap Shop ym Maesteg.

Y Cynghorydd T H Beedle:

Dyddiad: 07: 04: 20